Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Forestry Commission Wales

Cylchlythyr technegol

Coetiroedd gwell i Gymru

Newyddion Grantiau a Rheoliadau Comisiwn Coedwigaeth Cymru, Rhifyn 22 Tachwedd 2009

Cynnwys

Rhif ffôn newydd
Newid i ffioedd data digidol
Ymholiadau Cyfeirnodau
Cwsmeriaid
Monitro gwiwerod
Diweddariad Gwasanaeth
Grantiau a Thrwyddedau Ar-lein
CGG yn ariannu llwybrau beicio mynydd newydd
Defnyddith deuol o dir
Nodiadau atgoffa
Cau ar gyfer gwyliau'r Nadolig

Y rhifynnau nesaf:

Rhifyn 23 Ionawr 2010
Rhifyn 24 Mawrth 2010

Mae'r rhifyn cyfredol a rhifynnau blaenorol ar gael ar wefan CCC:
www.forestry.gov.uk/wales

****NEWYDDION DIWEDDARAF****

RHIF FFÔN NEWYDD

O 23 Tachwedd mae'r rhif ffôn ar gyfer canolfan gyswllt Comisiwn Coedwigaeth Cymru wedi newid i 0300 068 0300. Codir am bob galwad i'r rhif hwn ar raddfa safonol llinell dir hyd yn oed os ydych yn ffonio ar ffôn symudol.
Bydd yr hen rif yn ailgyfeirio galwadau yn awtomatig am gyfnod o dri mis ac wedyn bydd neges yn dweud y rhif newydd am dri mis arall.

Ffioedd data Digidol newydd

O 1af Rhagfyr 2009 bydd y ffi ar gyfer Data Digidol Cynlluniwr Rheolaeth. Ni fydd bellach yn gyfradd unffurf o £250 yr achos ond bellach bydd yn ffi a gyfrifir yn dibynnu ar y nifer o flociau coetir, isadrannau a maint (hectarau). Cafodd y ffioedd eu newid i adlewyrchu'r amser ychwanegol a oedd ei angen ar gyfer achosion mwy neu rai mwy cymhleth.

Caiff manylion o'r strwythur ffioedd newydd a sut i gyfrifo'r ffioedd eu cyhoeddi cyn 1 Rhagfyr. Dylech chi ddefnyddio'r meini prawf newydd i gyfrifo unrhyw anfonebau sydd i'w derbyn gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru ar neu ar ôl 1 Rhagfyr 2009.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau cysylltwch â'n Rheolwr Technegol
martyn.potton@forestry.gsi.gov.uk

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Ymholiadau Cyfeirnodau Cwsmeriaid a Chofrestru Tir

Ein Rheolwr Busnes a Phrosiectau, kevin.taylor@forestry.gsi.gov.uk bellach yw'r pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer unrhyw ymholiadau sydd gennych mewn perthynas ag ymdrin â LICC (Llywodraeth Cynulliad Cymru) megis cael CRNau (Cyfeirnodau Cwsmeriaid), ffurflenni manylion Cwsmeriaid a Chofrestru Tir. Mae Kevin wrthi'n cysylltu â LICC er mwyn gwella'r broses i gwsmeriaid y goedwigaeth ac mae hefyd â'r nod o weithio gyda LICC i sefydlu seminarau i helpu Cynllunwyr Rheoli i ddeall hyn yn well. Byddwn yn rhoi'r newyddion diweddaraf i chi.

Arolygu a monitro gwiwerod

Mae'r Comisiwn Coedwigaeth wedi cyhoeddi nodyn ymarfer, 'Technegau Ymarferol ar gyfer Arolygu a Monitro Gwiwerod'. Gallwch lawrlwytho'r cyhoeddiad hwn neu archebu copi gan gyhoeddiadau'r Comisiwn Coedwigaeth. Teipiwch FCPN011 yn y blwch chwilio ar www.forestry.gov.uk/wales i gael copi.

Gwyliau'r Nadolig

Bydd y Swyddfa Grantiau a Rheoliadau yng Nghlawdd Newydd yn cau ar ddydd Iau 24 Rhagfyr ac yn ailagor ar ddydd Llun 4 Ionawr 2010.

Mae ardal sgiliau newydd yn paratoi beicwyr mynydd ar gyfer amser cyffrous yn y coetir

Mae miloedd o bobl yn ymweld â choetiroedd Cymru bob blwyddyn i fynd i'r afael â'r rhwydwaith cynyddol o lwybrau beicio mynydd o safon fyd-eang. Erbyn hyn mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru'n helpu beicwyr i ymbaratoi am y cannoedd o filltiroedd o lwybrau ledled Cymru drwy ddarparu'r arian ar gyfer ardal sgiliau newydd lle gallant brofi eu gallu cyn symud ymlaen i'r goedwig. Agorwyd yr ardal sgiliau ym mis Hydref yng nghanolfan beicio mynydd Coed Llandegla ger Wrecsam a berchnogir gan UPM Tilhill diolch i grant gan Gwell Coetiroedd i Gymru. Mae'r Cynlluniwr Rheoli Simon Miller o Tilhill wedi bod yn llunio cynllun sy'n cynnwys pedair adran sgiliau ar wahân fel y gall beicwyr o bob gallu - o ddechreuwyr i lefel uwch - brofi'r cyffro, heb gael codymau. Gall y rhai sy'n newydd i'r gamp ddysgu ac ymarfer technegau beicio sylfaenol, a gall beicwyr mwy profiadol fynd i'r afael â'r ardal Beicio'n Rhydd, sy'n cynnwys pethau wedi'u hadeiladu i neidio drostynt a rhai pridd, cwympiadau a styntiau a adeiladwyd yn bwrpasol. Mae'r Trac Pwmpio'n dysgu beicwyr i gadw a chynyddu cyflymdra gyda chyn lleied â phosibl o bedalu ac mae'r Slalom Deuol yn rhoi dau feiciwr yn erbyn ei gilydd mewn ras ar hyd ysgafellau, neidiau a thwmpathau.

Dywedodd Dave Liddy, ymgynghorydd Comisiwn Coedwigaeth Cymru ar feiciau mynydd, fod mwy a mwy o bobl yn darganfod cyffro beicio mynydd yng nghoetiroedd Cymru."Y llynedd, ymwelodd mwy na 410,000 o feicwyr â'r canolfannau o safon fyd-eang yng Nghymru, gan ddod â miliynau o bunnoedd i mewn i economi Cymru, ond rydym yn awyddus i annog y rhai sy'n newydd i'r gamp i ddysgu ac ymarfer technegau beicio cyn iddynt gychwyn am y coedwigoedd," meddai. "Mae ein coetiroedd yn cynnig cyfleodd gwych ar gyfer hamdden ac mae'r llwybrau beicio mynydd yn dangos sut gall coedwigoedd mawr a reolir yn dda ddarparu pren a swyddi lleol yn ogystal â diwrnod gwych yn yr awyr agored."

Cynllun Datblygu Gwledig – Digwyddiad echelau croes yn Neuadd Gregynog

Gosododd Cynllun Datblygu Gwledig 2007-13 bedwar amcan craidd (echelau) ar gyfer datblygu gwledig.
Echel 1 - Cynyddu ysfa gystadleuol y sector amaethyddol drwy gefnogaeth ar gyfer ailstrwythuro;
Echel 2 - Gwella'r amgylchedd a'r cefn gwlad drwy gefnogaeth ar gyfer rheoli tir (gan gynnwys gweithrediadau sy'n berthnasol i safleoedd Natura 2000);
Echel 3 - Gwella ansawdd bywyd mewn ardaloedd gwledig a hyrwyddo amrywio gweithgareddau economaidd drwy fesurau sy'n targedu'r fferm a sectorau gwledig eraill: a
Echel 4 - Gwella defnydd ymagwedd Leader sy'n darparu ymagwedd o'r gwaelod i fyny, a yrrir gan y gymuned yn defnyddio partneriaethau lleol i arwain gweithredu'r tair echel arall.

Cytunodd un o berchnogion ein coetiroedd, Ian Jones o Gwm Belan ger Llanidloes yn garedig i siarad am ei gynllun Gwell Coetiroedd i Gymru a ariennir o dan echel groes, mewn digwyddiad a gynhaliwyd gan y Cynllun Datblygu Gwledig ym mis Hydref. Siaradodd Ian â rheolwyr a buddiolwyr cynlluniau amgylcheddol amaethyddol, megis Farming Connect a chawsom ddiweddariad ar Glastir. Mae Ian yn berchen ar dyddyn 36 erw a bu'n trawsnewid ei dir porfa llwm ar ochr y bryn yn raddol yn goetir cynhenid. "Ces i fy magu gydag amaethyddiaeth ddwys a defnyddio gwrteithiau felly rwyf yn awr yn troi'r fantol ac yn rhoi rhywbeth yn ôl", meddai. Mae ef wedi derbyn taliadau ychwanegol ar gyfer defnyddio stoc leol a bod yn yr ugain uchaf o ran rhwydwaith ffocal. 'Mae fy nhyddyn yn rhy fach i'm cynnal, ond mae grant Coetiroedd Gwell i Gymru wedi caniatáu i mi lwyddo wneud gwaith contractio a phlannu a chynnal a chadw coetir newydd ar gyfer y dyfodol' dywedodd Ian wrth y gynulleidfa.

Diweddariad Gwasanaeth Grantiau a Thrwyddedau Ar-lein (GLOS)

Mae gennym restr hir o newidiadau a thrwsiadau o hyd y mae angen eu gwneud i GLOS i sicrhau bod y system yn cydymffurfio â'r Cynllun Datblygu Gwledig ac yn gweithio'n effeithiol. Ar gyfer Comisiwn Coedwigaeth Cymru rydym wedi gofyn am 30 o newidiadau a thua 50 o drwsiadau. Ceir rhestr debyg ar gyfer Comisiwn Coedwigaeth Lloegr sydd hefyd yn rhannu GLOS a nifer llai ar gyfer Comisiwn Coedwigaeth yr Alban.

Dangosir y prif newidiadau sy'n cael effaith ar Gynllunwyr Rheoli isod gyda dyddiad rhyddhau disgwyliedig: -

Dyddiad rhyddhau	Defnyddiwr	Newid	Buddion
Chwefror 2010	I gyd	Mapiau contract gwell	Manylion cliriach am ble caiff y gweithrediadau eu gwneud
	Allanol	Gallu i uwchlwytho data o gyfrifiannell cost WIG i GLOS	Lleihau amser y Cynlluniwr a'r Swyddogion Coetir o ran gwirio bod y manylion wedi eu copïo'n gywir
	Mewnol	Diwygiadau	Gwella'r gallu i brosesu diwygiadau a ddylai helpu i gyflymu'r rhain
	Mewnol	Croeswirio diwygiadau	Croeswirio diwygiadau wedi'i awtomeiddio yn erbyn cynlluniau Cynllun Datblygu Gwledig eraill i osgoi ariannu deuol neu anghydnaws
July 2010	Allanol	Offeryn Cysylltu Gofodol	Yn haws i Gynllunwyr weld beth sydd wedi'i gysylltu a ble
	I gyd	Mapiau contract gwell	Cynnwys mapiau cyfyngiadau
	Mewnol	Diwygiadau	Hysbysu Gwasanaethau Technegol Coetiroedd Gwell i Gymru yn awtomatig pan gafodd diwygiad ei gyflwyno
	Mewnol	Fy ngwaith	Gwella defnyddiadwyedd fel y gall y staff brosesu achosion yn fwy effeithlon
No date yet	I gyd	Adnewyddu achosion	Y gallu i ychwanegu ail gynllun 5 mlynedd o weithrediadau i Gynllun Rheoli Coetiroedd Gwell i Gymru ar ôl i'r cynllun 5 mlynedd cyntaf o weithrediadau ddod i ben

Mae'r trwsiadau wedi codi o amrywiaeth o ffynonellau – yn fewnol ac yn allanol ac mae'r rhain yn amrywio o anallu i wneud taliadau i fformadu problemau. Gwnaethom ofyn i'r Tîm Datblygu ymchwilio a fyddai'n bosibl cael system hyfforddi GLOS, yn debyg i'r un a ddefnyddir yn nigwyddiadau hyfforddi i Gynllunwyr Rheoli, er mwyn i Gynllunwyr ymarfer defnyddio GLOS. Yn anffodus nid yw hyn yn bosibl yn rhwydd oherwydd: -

- Ceir mynediad at hyfforddiant i Gynllunwyr Rheoli drwy systemau mewnol ac nid trwy'r Rhyngrwyd fel y gwneir gyda GLOS.
- efnyddir y system hon hefyd ar gyfer Datblygiad GLOS felly mae'n newid yn gyson fel y caiff darnau newydd o god cyfrifiadur eu datblygu a'u profi i fodloni'r newidiadau a'r trwsiadau sydd eu hangen arnom. Yn ystod y sesiynau hyfforddi gallwn ofyn na wneir unrhyw newidiadau i'r system hon am ychydig o ddyddiau ond ni fyddai hyn yn ymarferol ar gyfer cyfnodau hwy.

Byddai creu a chynnal a chadw system hyfforddi sydd ar gael yn allanol yn defnyddio adnoddau sylweddol - o ran amser ac yn ariannol - a fyddai'n oedi cyflwyno'r newidiadau a'r trwsiadau sydd gennym eisoes yn y rhaglen. Rydym felly wedi penderfynu peidio â mynd ymlaen gyda hyn ond byddwn yn gofyn i Grŵp Technegol Coetiroedd Gwell i Gymru a allant ymchwilio i ffyrdd o helpu Cynllunwyr sydd eisiau cydgyfnerthu gan ddefnyddio GLOS.

Rydym yn defnyddio'r un meini prawf i flaenoriaethu'r holl newidiadau a thrwsiadau sy'n ymwneud â'r canlynol:-

Uchel – mae'n ofynnol cadw cydymffurfiaeth gyfreithiol gan gynnwys cydymffurfiaeth â gofynion rheoleiddiol yr UE. Nid yw'n bosibl gweithio o'i amgylch â llaw.

Canolig – mae'n ofynnol cyflawni effeithlonrwydd busnes, gwell proses busnes, gofyniad Archwilio ond gellir eu rheoli drwy weithio o'u hamgylch â llaw yn y tymor byr ond nid yn yr hirdymor.

Isel - gwell proses busnes, mae gweithio o'i amgylch â llaw yn bosibl, mae'r perygl o risg yn isel.

Ar frys – Torri gofyniad cyfreithiol, nid oes isafswm o ran niferoedd o ddefnyddwyr yn gymwys. Nid yw'r system yn gweithio e.e. nid yw ar gael, caiff y grantiau anghywir eu cyfrifo, ni ellir gwneud hawliadau, ni ellir symud achosion ymlaen, nid yw'n bosibl gweithio o'i amgylch â llaw.

Tymor canolig – mae'r system yn gweithio ond nid fel sy'n ofynnol, mae gweithio o'i hamgylch â llaw yn ofynnol ond ni fydd yn bodloni'r gofynion Archwilio, mae'r broses yn cymryd yn hirach na'r disgwyl ac mae hyn yn effeithio ar effeithlonrwydd. Mae'n debygol y caiff hyn effaith ar rwng 10- 20% o'r defnyddwyr.

Tymor hirach – Yn gosmetig neu nid yw'n dod o dan y categoriau uchod.

Mae hyn yn golygu efallai y bydd yn cymryd ychydig o amser i drwsio rhai o'r ceisiadau a godwyd gan Gynllunwyr Rheoli a lle bo hyn yn wir ein nod fydd hysbysu am amserlen debygol cyn

Trefniadau pwysig i landlordiaid a thenantiaid ynghylch meddiannu tir

Cyhoeddodd rhifyn Tachwedd 2009 o'r cylchgrawn Gwlad erthygl ar reolau sydd nawr yn weithredol ynghylch defnydd deuol o dir. Mae hyn yn digwydd lle bo dau reolwr tir – fel arfer landlord a thenant – yn defnyddio'r un darn o dir i hawlio dan wahanol gynlluniau yn y Cynllun Datblygu Gwledig a'r cynllun Cymorth Uniongyrchol ar yr un pryd. Mae'r rheolau hyn yn cynnwys Coetiroedd Gwell i Gymru (CGG).

Penderfynodd y Llys Archwilwyr Ewropeaidd a'r Comisiwn Ewropeaidd ynghylch rheolau, mai un person yn unig a all fod yn meddu ar 'reolaeth rheoli' ar gyfer cynlluniau amaeth-amgylchedd a bod tir 'at eich defnydd' ar gyfer Cynllun y Taliad Sengl (SIPS) ar unrhyw ddarn sengl o dir. Mae'r rheolau hyn hefyd yn gymwys ar gyfer CGG gan fod hwnnw'n derbyn arian dan y Cynllun Datblygu Gwledig.
Gellir sicrhau'r lefel ofynnol o 'reolaeth rheoli' yn unig lle mae'r Hawliwr yn:

- Berchennog/deiliad;
- Tenant, sydd â 'daliadaeth gyfyngedig' neu denantiaeth lawn yn unol â Deddf Daliadau Amaethyddol 1986 a lle na fydd un o'r ddau drefniant yn gorffen yn y cyfnod pum mlynedd hwnnw, ac, yn y naill achos neu'r llall, lle nad oes dim adrannau anghyson yng nghytundeb y denantiaeth a fyddai'n gwrthdaro â gwneud cais am neu gyflawni cytundeb CGG; neu'n
- Drwyddedwr sy'n berson sy'n rhoi trwydded i ddaliwr trwydded.

Y trefniadau hyn yn unig o ddal tir a fydd yn cwrdd ag anghenion y cynlluniau Datblygu Gwledig, fel CGG, ar gyfer 'rheolaeth rheoli', cyhyd â bod gennych reolaeth rheoli tra pery'r cytundeb. Ceir sefyllfaoedd lle y gallai defnydd deuol o dir effeithio arnoch fel hawliwr CGG fel a ganlyn:

- Chi ydyw'r landlord â chytundeb CGG ond mae gennych denant sy'n hawlio dan Gynllun y Taliad Sengl ar y coetiroedd.
- Chi ydyw'r landlord â chytundeb CGG, ond mae gennych denant sydd wedi clymu'r coetiroedd mewn cytundeb amaeth-amgylchedd, fel Tir Gofal neu Dir Cynnal.
- Rydych chi'n denant â chytundeb CGG, ond mae gennych landlord sy'n hawlio dan Gynllun y Taliad Sengl ar y coetiroedd.
- Rydych chi'n denant â chytundeb CGG, ond mae gennych landlord sydd wedi clymu'r coetiroedd mewn cytundeb amaeth-amgylchedd.

Felly, efallai y bydd angen adolygu'r tenantiaethau a'r trwyddedau cyfredol, eu haddasu yn ôl y galw i sicrhau bod y busnes sengl cywir yn weithredol er mwyn caniatáu mai hwnnw fydd yr hawliwr dros y cynlluniau cysylltiol i gyd ar y tir dan sylw.

Bydd Taliadau Gwledig Cymru yn gwirio mai un busnes yn unig sy'n hawlio dros gynlluniau ar lain sengl o dir a'i fod yn cydymffurfio â gofynion daliadaeth tir er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y cynlluniau. Ni fydd Taliadau Gwledig Cymru'n derbyn cytundebau anysgrifenedig fel tystiolaeth gywir i ddangos gan bwy mae naill ai 'rheolaeth rheoli" ar y tir neu fod y tir 'at eich defnydd'. Byddai'n fuddiol cael cyngor proffesiynol i sicrhau'r canlyniadau a fwriedir gan y partïon i gyd yn y cytundebau ysgrifenedig ynghylch defnydd a daliadaeth tir, fel y bo'r darpar hawliwr yn gymwys ar gyfer hawlio. Gallech dderbyn cosbau neu waharddiadau sylweddol pe baech yn methu â sicrhau eich bod yn meddu ar ddaliadaeth gywir y tir yr ydych yn hawlio yn ei gylch.

Os ydych am drafod hyn ymhellach cysylltwch â Kevin Taylor ar 0845 604 0845 cyn 22 Tachwedd neu 0300 068 0300 ar ôl hynny os oes cwestiynau pellach gennych ynghylch rheolau defnydd deuol o dir.

Gellir cael copi llawn o erthygl y cylchgrawn Gwlad o Swyddfeydd Rhanbarthol LlCC neu gallwch ei lwytho i lawr o wefan LlCC:

http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/ecnewsevents/gwlad/gwlad2009/gwlad90/?lang=en

Nodiadau atgoffa gan y Dîm y Gwasanaethau Technegol

Cofiwch roi eich rhif ffôn ar unrhyw negeseuon e-bost yr anfonwch at dîm Swyddogion y Gwasanaethau Technegol ar bww.ts@forestry.gsi.gov.uk oherwydd ei fod yn cyflymu eu hymateb i chi.

Os ydych yn newid y cwmni rydych chi'n gweithio iddo, rhowch wybod i ni, oherwydd ei fod yn cael effaith ganlyniadol ar eich cytundeb Fframwaith a'ch contract data digidol.

25% o'r incwm o ffermio?

Er mwyn profi bod perchennog yn derbyn mwy na hanner ei incwm o ffermio gofynnir i chi ddarparu llythyr gan Gyfrifydd Siartredig. Mae'n rhaid darparu hyn cyn cymeradwyo'r cynllun gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru.

Gweithio gyda swyddogion Tir Gofal

Lle mae rheoli coetiroedd yn digwydd ar ffermydd mewn Cynllun Tir Gofal dylai'r Swyddog Tir Gofal fod o leiaf yn un yr ymgynghorir ag ef yn orfodol a chael copi o'r cynllun rheoli drafft wedi'i anfon ato er gwybodaeth ac er mwyn iddo roi sylwadau arno. Mae'n ofynnol i Gynllunwyr Rheoli ddarparu cadarnhad gan swyddog Tir Gofal nad oes ariannu dwbl ar gynllun Coetiroedd Gwell i Gymru.

Manylion cysylltu...

Ymholiadau CGG cyffredinol: Ffoniwch 0300 068 0300 neu ewch i: www.forestry.gov.uk/cymru
Ymholiadau technegol: E-bostiwch bww.ts@forestry.gsi.gov.uk
Gwasanaeth GLOS: Cyswllt www.eforestry.gov.uk
ac amawgrymiadau ar gyfer rhifynnau yn y dyfodol: E-bostiwch alison.evans@forestry.gsi.gov.uk